Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Datganiad o Fuddiannau

15 Chwefror 2017

**Cais am wybodaeth.**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 24 Ionawr, pan wnaethoch ofyn:

> *Os gwelwch yn dda a allech roi'r wybodaeth a ganlyn o dan Cais Rhyddid Gwybodaeth mewn perthynas â Janet Finch-Saunders, Aelod Cynulliad:*
>
> 1. *Faint o eiddo domestig y mae Janet Finch-Saunders wedi datgan ei bod yn berchen arnynt neu fod ganddi fuddiant ynddynt?*
> 2. *Sawl datganiad o fuddiant mae Janet Finch-Saunders wedi'u gwneud yng nghyfarfodydd y Cynulliad? Rhestrwch nhw os gwelwch yn dda.*
> 3. *Rhowch fanylion am unrhyw ôl-ddyledion rhent/taliadau a fethwyd/ôl-ddyledion treth gyngor y mae Janet Finch-Saunders wedi'u cael yn ystod ei chyfnod fel Aelod o'r Cynulliad.*
> 4. *Rhowch fanylion am unrhyw hysbysiadau goryrru/parcio/cosb sefydlog mae Janet Finch-Saunders wedi'u datgan ers ei chyfnod fel Aelod o'r Cynulliad.*
> 5. *Beth mae Janet Finch-Saunders wedi'i ddatgan fel cyfanswm ei hincwm blynyddol?*

1. *Faint o eiddo domestig y mae Janet Finch-Saunders wedi datgan ei bod yn berchen arnynt neu fod ganddi fuddiant ynddynt?*

Yn ôl adran 36 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a Rheol Sefydlog 2, mae'n ofynnol i'r Cynulliad Cenedlaethol gynnal a chyhoeddi Cofrestr Buddiannau Aelodau'r Cynulliad.

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 0300 200 6544
E-bost/Email: Assembly-Accesstoinformation@Cynulliad.Cymru
Assembly-Accesstoinformation@assembly.wales

**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

Mae cofrestr buddiannau Janet Finch-Saunders AC wedi'i chyhoeddi ar ein gwefan.

Mae'n ofynnol i Aelodau'r Cynulliad gofrestru unrhyw fuddiannau perthnasol o fewn wyth wythnos ar ôl cymryd y llw neu gadarnhad a hefyd i gofrestru unrhyw newidiadau i'r buddiannau hynny o fewn pedair wythnos. Mae Adran 36(7)(a) o Ddeddf Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn drosedd i unrhyw Aelod gymryd rhan yn nhrafodion y Cynulliad heb ei fod wedi cofrestru budd perthnasol fel y nodir yn yr Atodiad i Reol Sefydlog 2.

Gan fod yr wybodaeth hon eisoes wedi'i chyhoeddi, mae eich cais yn ddarostyngedig i adran 21 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 sy'n eithrio gwybodaeth sydd eisoes ar gael yn rhesymol mewn ffyrdd eraill.

2. *Sawl datganiad o fuddiant mae Janet Finch-Saunders wedi'u gwneud yng nghyfarfodydd y Cynulliad? Rhestrwch nhw os gwelwch yn dda.*

Mae Cofnod y Trafodion yn ei hanfod yn drawsgrifiad gair am air o drafodion cyfarfodydd llawn y Cynulliad Cenedlaethol. Mae'n cofnodi'r hyn a ddywedwyd (hy unrhyw ddatganiad o fuddiannau a wnaed gan ACau) yn ogystal â'r hyn a benderfynwyd. Gallwch chwilio Cofnod y Trafodion a'r holl drawsgrifiadau Pwyllgorau drwy ein gwefan.
Gallai Janet Finch-Saunders hefyd fod wedi gwneud datganiad o ddiddordeb yn ystod trafodion pwyllgorau. Ar hyn o bryd mae hi'n aelod o'r pwyllgorau canlynol:

- Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau
- Y Pwyllgor Deisebau

Gan yr oedd yn AC yn ystod y Pedwerydd Cynulliad, efallai y byddwch yn dymuno chwilio'r pwyllgorau yn ystod y cyfnod hwn. Unwaith eto, mae hon yn wybodaeth a gyhoeddir ar ein gwefan.

Gan fod yr wybodaeth hon eisoes wedi'i chyhoeddi, mae eich cais yn ddarostyngedig i adran 21 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 sy'n eithrio gwybodaeth sydd eisoes ar gael yn rhesymol mewn ffyrdd eraill.

3. *Rhowch fanylion am unrhyw ôl-ddyledion rhent/taliadau a fethwyd/ôl-ddyledion treth gyngor y mae Janet Finch-Saunders wedi'u cael yn ystod ei chyfnod fel Aelod o'r Cynulliad.*

Nid oes gennym yr wybodaeth yr ydych wedi gofyn amdani.

4. *Rhowch fanylion am unrhyw hysbysiadau goryrru/parcio/cosb sefydlog mae Janet Finch-Saunders wedi'u datgan ers ei chyfnod fel Aelod o'r Cynulliad.*

Nid oes gennym yr wybodaeth yr ydych wedi gofyn amdani.

5. *Beth mae Janet Finch-Saunders wedi'i ddatgan fel cyfanswm ei hincwm blynyddol?*

Nid ydym yn dal y wybodaeth y gofynnir amdani ynghylch cyfanswm incwm blynyddol yr AC, ond mae'r Bwrdd Taliadau yn Fwrdd annibynnol, a sefydlwyd yn 2010 i edrych ar gyflogau a lwfansau Aelodau'r Cynulliad. Cewch wybodaeth bellach o dan *Pennod 3: Cydnabyddiaeth Aelodau* o'r Penderfyniad.

Gan fod yr wybodaeth hon eisoes wedi'i chyhoeddi, mae eich cais yn ddarostyngedig i adran 21 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 sy'n eithrio gwybodaeth sydd eisoes ar gael yn rhesymol mewn ffyrdd eraill.

Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan yn http://www.assembly.wales/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/Pages/abt-foi-cop-pub.aspx
Cysylltwch â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr ymateb hwn. Os teimlwch fod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir

**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch cais am wybodaeth?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod yn briodol yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Nodir egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion sydd ar gael ar ein gwefan yn http://www.assembly.wales/cy/help/contact-the-assembly/con-complaint/Pages/con-complaint-procedure.aspx. Rhowch wybod imi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF